Opsiynau Blwyddyn 8 - Cwestiynau Cyffredin

Dyma rai cwestiynau posib sy'n ategu at yr hyn a ddarparwyd yn y llyfryn gwybodaeth.

Erbyn pryd mae angen i fi wneud penderfyniad?
Dydd Mawrth Mai 21ain yw'r dyddiad hwyraf i gyflwyno'ch ffurflen ddewisiadau.

Beth os wyf eisiau newid fy meddwl ar ôl dewis pwnc?
Mae modd newid meddwl cyn mis Medi a hyd at hanner tymor Hydref, os oes lle yn y pwnc/pynciau newydd rydych am ddewis. Ar ôl hyn, bydd ond modd newid pwnc mewn achosion eithriadol.

Rydw i eisiau dewis pwnc nad sy'n cael ei gynnig yn CA3, e.e. Cymdeithaseg. Sut ydw i'n gwneud hwn?
Dim problem. Bydd y pynciau ychwanegol a'r colofnau opsiwn Blwyddyn 10 yn cael eu cynnig yn ystod tymor y Gwanwyn. Bydd modd gollwng pwnc a dewis y pwnc "newydd" o fis Medi ymlaen.

Pam mae rhaid i fi ddewis un o'r Dyniaethau ac un o'r Celfyddydau Mynegiannol?
Rydyn ni eisiau sicrhau bod cwricwlwm Blwyddyn 9 yn gytbwys gyda'r Meysydd Dysgu a Phrofiad y cwricwlwm newydd. Felly mae rhaid parhau i ddilyn o leiaf un o'r pynciau yn y meysydd hyn tan ddiwedd Blwyddyn 9.

A fyddwn i'n sicr o astudio'r 5 pwnc rwy'n dewis?
Rydym yn gofyn i bawb ddewis 2 bwnc (dewis 1af ac 2il ddewis) o bob colofn. Anelwn at sicrhau dewis 1af pob tro ond efallai bydd 2il ddewis mewn ambell achos. Byddwn yn ceisio sicrhau bod y 3 pwnc rydych am gymryd ymlaen at TGAU yn rhan o'ch dewisiadau. Cofiwch eich bod yn gollwng 2 o'r pynciau hyn ar ddiwedd Blwyddyn 9 ac efallai gollwng mwy os ydych yn dewis un o'r pynciau sydd ond yn cael eu cyflwyno yn CA4.

Oes rhaid i fi ddilyn Mathemateg/Gwyddoniaeth/Cymraeg/Saesneg?
Oes. Mae rhain yn bynciau craidd sydd yn statudol, nid yn unig yn yr ysgol hon ond ymhob ysgol hyd at 16 oed.

Beth fydd cynnwys y gwersi Dysgwr Cyflawn?
Byddwn yn parhau i ddefnyddio'r gwersi hyn er mwyn datblygu sgiliau ehangach (gweithio gyda eraill, datrys problemau, ymchwilio, ayb) gan gynnwys hefyd datblygiad pellach yn y fframweithiau llythrennedd, rhifedd a cymwyseddau digidol. Yn ogystal â hyn byddwn yn parhau i ddarparu rhaglen ABCh trwy'r gwersi a thrwy diwrnodau penodol ar ei cyfer.